**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1213
Ein cyf/Our ref JJ/00653/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

05 Ebrill 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-06-1213 'Dylid gwahardd defnydd hamdden o *Seadoos*/jetiau sgïo yng Nghymru, ac eithrio mewn ardaloedd dynodedig a reolir yn llym'.

Caiff Cymru ei chydnabod yn rhyngwladol am fod â rhai o'r traethau a safonau dŵr gorau yn Ewrop ac rwy'n awyddus i warchod y cyflawniad arbennig hwn. Mae dyfroedd ymdrochi o safon uchel yn bwysig ar gyfer cefnogi cyfleoedd gwerthfawr o ran gweithgareddau hamdden dŵr yn yr awyr agored. Maen nhw hefyd o gymorth i gyfrannu at yr amcanion a nodir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Cymru Iachach. Mae safonau uchel y dyfroedd ymdrochi hyn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fo cydweithio cadarn ar waith rhwng llywodraeth, rheoleiddwyr a chymunedau.

Mae'r defnydd o jetiau sgïo a *seadoos* yn weithgaredd hamdden nad yw'n cael ei reoleiddio. Fodd bynnag, ceir codau ymddygiad morol ynghylch y defnydd o fadau dŵr personol sydd wedi'u hanelu at atal aflonyddu rhywogaethau a warchodir ac sy'n cwmpasu rhan fwyaf o'r moroedd o amgylch Cymru.

Nodaf fod gan Awdurdodau Lleol y pŵer i reoleiddio jetiau sgïo a hynny drwy is-ddeddfau. Yn ogystal, mae Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gryfhau'r camau gorfodi ynghylch y defnydd peryglus o fadau dŵr hamdden a phersonol (gwefan Llywodraeth y DU). Gwneir hynny o fewn cwmpas y Ddeddf Llongau Masnach - nad yw'n fater datganoledig. Er bod y mater y tu hwnt i gylch gwaith fy mhortffolio, gallaf gynghori y byddai angen i unrhyw gyfrifoldebau newydd ar awdurdodau lleol gyd-fynd â chydnabyddiaeth o'r angen am adnoddau ychwanegol.

Gan gydnabod bod cynnydd wedi bod mewn digwyddiadau o fadau dŵr megis jetiau sgïo yn effeithio ar fywyd gwyllt y môr, mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cynnwys mesurau penodol i fynd i'r afael ag aflonyddu. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad drwy godau ymddygiad morol, lansio'r ap Crwydro Arfordir Cymru ac ymyriadau wedi'u targedu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Strategaeth Cadwraeth Dolffiniaid a Llamidyddion y DU yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer gwella poblogaethau morfilod yn y DU. Yn dilyn y broses ymgynghori, rhagwelir y bydd cynllun gweithredu wedi'i dargedu yn cael ei lunio ar gyfer materion penodol megis aflonyddu ar fywyd gwyllt.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change